

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Gerallt Jones

Nos Lun Medi 9fed 2019 am 7.30 y.h.

Cofnodion

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Alun Owen
2. **Presennol:** Cyng. Gari Jones, Gerallt Jones, Edmund Rees, Gwynfor Roberts, Paul Weston, Cyng. Sirol Garffild Lewis ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad:** Datgan Cysylltiad neu ddi-ddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda – neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Gorffennaf** cynigiwyd yn gywir gan Gwynfor Roberts gyda Edmund Rees yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
 - 5.1. 'Audit Walk' y gwaith wedi cychwyn gan Gyngor Conwy.
 - 5.2. Arwyddion Dehongli – nid oedd yr hysbysfwrdd llechen yn dod i mewn i'r cynllun grant gan mae'r ffrâm oedd angen ei drwsio.
6. **Gohebiaeth:**
 - 6.1 Dim
7. **Monitro'r Gyllideb:**

Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
8. **Talu Anfonebau:**
 - 8.1. Zurich Insurance – ar gynigiad Paul Weston gyda Edmund Rees yn eilio talu'r tâl anfoneb o **£276.50** am y flwyddyn gyda siec rhif **100333**.
 - 8.2. CBSC – cynigiodd Gari Jones gyda Paul Weston yn eilio talu am sgip gymunedol o £200.00 + TAW £40.00 = **£240.00** gyda siec rhif **100330**.
 - 8.3. CBSC – gan fod gwahaniaeth yn y bil a'r grant a dderbyniwyd o £20 penderfynwyd disgwyl am eglurhad cyn talu'r bil.
 - 8.4. Costau'r Clerc am 4mis – cynigiodd Edmund Rees gyda Gari Jones yn eilio talu'r costau o Ebrill i Orffennaf o **£119.62** gyda siec rhif **100331**.
9. **Mantolen Banc:**

Edrychwyd dros y fantolen, hyd yma mae popeth mewn trefn.
10. **Gair gan y Cyng. Sirol Garffild Lewis:**

Cafwyd gair gan y Cyng. Sirol – nid oedd dim yw adrodd ar. Y Pwyllgor Rhanbarth ar gyfarfod i drafod materion fel sut y gallent helpu Cynghorau Cymunedol gyda'r gwaith.
11. **Unrhyw fater arall:**
 - 11.1. Angen archebu sgip ar gyfer mis Tachwedd.
 - 11.2. BDO – ar ôl trafod y mater o gais gan yr archwilwyr fod angen mwy o wybodaeth yn ymwneud a'r 'Standing Orders' nid ydym wedi derbyn y Fantolen Flynyddol yn ôl felly ni fedrwch ei chadarnhau fel un gyflawn.
12. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Hydref 7fed 2019 am 7.30 y.h.**

Arwyddwyd _____
Cadeirydd

Dyddiad _____ 07.10.19 _____